# YSGOL GYFUN GWENT IS COED

Ffordd Dyffryn, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8BX

 01633 851614

 gwent.iscoed@newport.gov.uk

 www.gwentiscoed.cymru

Pennaeth: Eirian Jones


Annwyl Riant / Gofalwr,

Bydd Cerdd Gwent yn parhau i ddarparu gwersi peripatetig yn Ysgol Gwent Is Coed eto eleni. Maent yn darparu gwersi ar bob math o offerynnau, er enghraifft llais, piano, gitâr, gitâr fas, iwcalili, cit drymiau, clarinet, ffliwt, sacsoffôn, trwmped, trombôn, ffidil, sielo, bas dwbl, telyn, a llwyth o offerynnau eraill!

Caiff y gwersi eu darparu unwaith yr wythnos yn ystod y diwrnod ysgol gan athro peripatetic teithiol. Mae modd talu am wersi unigol (gallwch ddewis gwersi 20 neu 30 munud) neu wersi grŵp. O ran gwersi grŵp, bydd fel arfer dau neu dri disgybl yn y gwersi. Bydd angen i chi dalu am wersi fesul tymor. Mae prisiau'r gwersi yn amrywio yn ddibynnol ar ba mor hir yw'r gwersi, yn ogystal ag os bod y gwersi'n rhai unigol neu grŵp. Gweler y tabl isod:

| Unigol, 20 munud | Unigol, 30 munud | Grŵp |
|---|---|---|
| £154 | £232 | £77 |

Os bod eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim, a'u bod llynedd wedi derbyn gwersi peripatetig grŵp am ddim, neu wersi unigol am hanner pris, bydd modd iddynt barhau eleni gyda'r un drefn. Yn anffodus, os bod eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim a'u bod heb dderbyn gwersi peripatetig y llynedd, ni fydd y gostyngiad yma yn ddilys eleni, a bydd yn rhaid iddynt dalu. Gweler y tabl uchod ar gyfer prisiau o Fedi 2025 ymlaen.

Os hoffech i'ch plentyn dderbyn gwersi peripatetig, dilynnwch y cyfarwyddiadau isod:

- Ewch i https://www.gwentmusic.co.uk
- Cliciwch ar "Click here to enrol"
- Cliciwch ar "School Direct Tuition"
- Teipiwch "Ysgol Gyfun Gwent Is Coed" a dewiswch yr ysgol
- Dewiswch pa fath o offeryn hoffech i'ch plentyn dderbyn gwersi arni. (**Woodwind** - ffliwt, clarinet, sacsoffôn, obo, basŵn; **Strings** - ffidil, fiola, sielo, bas dwbl; **Brass** - trwmped, trombôn, corned, corn tenor, corn ffrengig, ewffoniwm, tiwba; **Percussion** - cit drymiau, marimba, timpani, ayb; **Guitar** - gitâr acŵstig a thrydanol, gitâr fas, iwcalili)
- Llenwch y wybodaeth.

Plis cysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau ar betsan.lewis@gwentiscoed.cymru .

Yr eiddoch yn gywir,

Betsan Lewis
Arweinydd Pwnc Cerddoriaeth

Eirian Jones
Pennaeth